PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Canllawiau ar gyfer Datblygu Deilliannau Dysgu

## 1. Rhagarweiniad

Mae'n ofynnol ym Mhrifysgol Bangor fod gan bob rhaglen a modiwl ddeilliannau dysgu. Mae asesiadau yn profi holl ddeilliannau dysgu'r modiwl ac nid ydynt yn mynd i'r afael â materion y tu hwnt iddynt. Rhaid i ddeunyddiau a strategaethau addysgu sicrhau yr eir i'r afael yn ddigonol â'r deilliannau dysgu hynny. Disgwylir mai deilliannau dysgu fydd yr ystyriaeth gyntaf wrth gynllunio modiwl a rhaglen. Unwaith y cytunir arnynt, yna disgwylir y bydd penderfyniadau eraill ynglŷn ag asesiadau myfyrwyr, y cynnwys a strategaethau dysgu yn dilyn.

Dylai deilliannau dysgu fod yn gysylltiedig â deilliannau proffesiynol perthnasol sydd eu hangen (e.e. mewn Nyrsio, Gwaith Cymdeithasol a HAGA) ac â datganiadau meincnodi pynciau’r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Dylent hefyd alinio â'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd:

| |
|---|
| *Datganiadau Meincnod Pynciau’r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd* |
| *Datganiad Nodweddion Graddau Meistr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd* |
| *Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd* |
| *Disgrifiad o wyth lefel y Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd \| Europass* |

## 2. Beth yw deilliannau dysgu?

Mae ysgrifennu deilliannau dysgu’n rhan o ddull o gynllunio cwrs sydd:

- yn cymryd y disgrifiad o’r hyn a ddisgwylir gan fyfyriwr llwyddiannus fel y man cychwyn wrth ddylunio **rhaglen neu fodiwl**;
- yn disgrifio rhaglen radd neu fodiwl yn nhermau’r hyn y mae disgwyl i fyfyriwr ei wybod, ei ddeall a gallu ei wneud ar ddiwedd modiwl **(deilliant)** yn hytrach na disgrifiad cyffredinol o'r hyn mae'r darlithydd yn ei fwriadu **(amcanion)**;
- yn ei gwneud yn ofynnol i asesu myfyrwyr unigol er mwyn gwybod **a gyflawnwyd y deilliannau dysgu**;
- yn arwain at, neu’n cyfuno â phenderfyniadau ynghylch cynnwys cwrs priodol a gweithgareddau a strategaethau addysgu a dysgu;
- yn ei gwneud yn ofynnol i fonitro er mwyn adolygu priodoldeb y deilliannau dysgu. Dylid **ailwerthuso’r** deilliannau dysgu bob blwyddyn.

## 3. Beth yw’r cyfiawnhad addysgol dros fod â deilliannau dysgu?

- Bydd myfyrwyr yn deall yn eglur yr hyn a ddisgwylir ganddynt. Byddant yn gallu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ynglŷn â dilyn rhaglenni/modiwlau penodol. Mae deilliannau dysgu yn annog dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar y myfyriwr.

* Bydd myfyrwyr yn gallu monitro eu cynnydd dysgu eu hunain yn fwy effeithiol.
* Bydd cyflogwyr yn gwybod hefyd beth mae myfyrwyr wedi ei gyflawni. Lle mae credydau'n cael eu trosglwyddo, mae dysgu blaenorol yn 'amlwg'.
* Lle mae asesu'n seiliedig ar ddeilliannau dysgu, mae penderfyniadau ynglŷn â llwyddiant myfyrwyr yn gliriach gan fod y meini prawf ar gyfer llwyddiant wedi'u nodi'n glir mewn modiwlau.
* Gall fod mwy o gysondeb safonau ar draws modiwlau.
* Mae pennu a chyfiawnhau deilliannau dysgu cwrs neu fodiwl yn annog darlithwyr i feddwl yn adfyfyriol.

**4. Dylai deilliannau dysgu fod:**

* wedi eu hysgrifennu fel targedau **trothwy**, h.y. bydd disgwyl i bob myfyriwr sy'n llwyddo yn y modiwl fod wedi cyflawni'r deilliannau a ddisgrifir;
* wedi eu hysgrifennu mewn dull sy'n **rhwydd i fyfyrwyr** a chyflogwyr ac ati eu deall;
* yn seiliedig ar **lefel** benodol (e.e. disgwylir gwahanol ddeilliannau ar lefelau 4,5,6 a 7 Meistr);
* yn dangos cynnydd trwy'r lefelau trwy bennu deilliannau mwy manwl a heriol, ac/neu ddeilliannau dysgu ychwanegol ar gyfer lefelau dilynol;
* yn arwain at benderfyniadau ynghylch dulliau **asesu**:
* yn arwain at benderfyniadau ynghylch **cynnwys pwnc, adnoddau,** gweithgareddau a **strategaethau addysgu** a **dysgu** (seminarau, darlithoedd a gwaith labordy, rhoi cyflwyniad llafar).

**Bydd meini prawf barnu perfformiad uwchlaw'r trothwy**, megis dyfarnu dosbarth cyntaf, 2i, 2ii a 3ydd, ar wahân i ddeilliannau dysgu.

Yn dibynnu ar y modiwl a'i lefel, gall deilliannau dysgu ganolbwyntio ar ystod o brosesau dysgu megis:

> **gwybodaeth, dealltwriaeth (dim ond ar lefel 4 oni bai ei bod yn arbenigol), cymhwyso, dadansoddi, dehongli, synthesis, gwerthuso, a datblygu sgiliau proffesiynol.**

Bydd rhai deilliannau dysgu'n bwnc-benodol, gall rhai fod yn ddeilliannau generig (e.e. fe'u disgwylir gan bob myfyriwr sy'n graddio), gall rhai fod yn sgiliau bywyd/sgiliau trosglwyddadwy/sgiliau personol (e.e. sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm, hunanwerthuso, datrys problemau, rhifedd, llythrennedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ac ati).

Efallai y bydd gan fodiwlau gwahanol rai deilliannau dysgu sy'n gorgyffwrdd.

Dylid ystyried modiwlau fel rhywbeth sy'n creu cyfanwaith integreiddiol fel bod cwrs yn arwain at ddeilliannau dysgu 'macro' cyffredinol i fyfyrwyr. Nodir deilliannau dysgu 'macro' o'r fath ym manyleb y rhaglen.

**5. Rhai Enghreifftiau o Ddeilliannau Dysgu**

**Ar ôl cwblhau'r modiwl hwn yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn gallu gwneud y canlynol:**

* Gwerthuso'n feirniadol ddefnydd awdur penodol o ddelweddaeth.
* Dadansoddi natur a chyfyngiadau segmentu'r farchnad.
* Dangos dealltwriaeth o'r rhesymau pam y beirniadwyd esboniadau crefyddol ar esblygiad.
* Asesu agweddau cadarnhaol a negyddol ar bolisi'r llywodraeth ar bensiynau i bobl dros oed ymddeol.
* Cyflwyno sgwrs 10 munud yn hyderus ac yn fedrus.
* Dangos sut i harmoneiddio emyn-dôn.

* Defnyddio gwybodaeth o x mewn arbrawf penodol.
* Mesur pwysedd gwaed, mewnbwn ocsigen a chyfradd curiad y galon claf.
* Dangos sgiliau wrth grynhoi a chyflwyno data busnes cwmni mawr.

## 6. Sut mae ysgrifennu deilliannau dysgu

(i) Un awgrym yw bod deilliannau dysgu'n **dechrau gyda'r ymadrodd: "Ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn gallu:"**

(ii) Yna rhaid penderfynu pa **ddeilliannau** yn nhermau gwybodaeth myfyrwyr, dangos dealltwriaeth, hyfedredd neu allu, a sgiliau trosglwyddadwy y dylai'r holl fyfyrwyr eu cyflawni trwy gwblhau'r modiwl. Beth fydd myfyrwyr yn ei ddatblygu ar y modiwl hwn? Sut byddant wedi newid o ganlyniad i'r modiwl hwn?

Pa drothwy **lefel perfformiad** a ddisgwylir er mwyn llwyddo yn y modiwl/rhaglen?

Disgrifiwch **lefel** y deilliant yn eglur (e.e. 4,5,6, 7 Meistr) oherwydd bydd yn bwysig i ddangos cynnydd o'r naill lefel i'r llall

Mae deilliant dysgu yn aml yn dechrau gyda berf. Dyma **rai berfau a ddefnyddir ar ddechrau deilliannau dysgu**:

*asesu, gwerthuso, gwerthuso'n feirniadol, dadansoddi, dadlau, dehongli, archwilio, deall, trafod, casglu, meddwl yn feirniadol, arddangos barn gytbwys, gwerthfawrogi, gwahaniaethu, barnu, egluro, arfarnu, arddangos, crynhoi, defnyddio, ymchwilio, datrys, amcangyfrif, cymhwyso, cymharu, cyferbynnu, rhagfynegi, cyfrifo, datblygu, cynllunio, profi, penderfynu, cynhyrchu, creu, darganfod, datblygu hyfedredd, dod i gasgliad.*

Yn aml mae'n rhaid i ni ychwanegu'r **cyd-destun** lle cyflawnir y deilliant dysgu. Er enghraifft, wrth ysgrifennu 'arddangos sgiliau tîm' bydd angen sôn yn benodol am waith tîm mewn labordy bioleg, gwaith maes coedwigaeth neu broject archaeolegol.

(iii) Yna rhaid cysylltu pob deilliant dysgu ag **asesiad** penodol. Weithiau asesir gwahanol ddeilliannau dysgu gyda'i gilydd (e.e. trwy broject neu draethawd hir). O bryd i'w gilydd, gellir asesu deilliant dysgu fwy nag unwaith (e.e. 'meddwl yn feirniadol' trwy draethawd ac arholiad).

Gofynnwch i chi eich hun sut y byddwch yn gwybod bod myfyrwyr wedi cyflawni'r deilliannau hyn. Ydy'r dyfeisiadau asesu'n addas?

(iv) Gwnewch yn siŵr bod y cynnwys pwnc a strategaethau dysgu ac addysgu'r modiwl wedi eu cynllunio er mwyn helpu i gyflawni'r deilliannau dysgu hynny. Lle bo modd dangoswch y cysylltiadau yn nogfennau'r modiwl rhwng deilliannau dysgu a chynnwys pwnc a strategaethau dysgu ac addysgu.

## 7. Defnyddio nodau ac amcanion y modiwl i ysgrifennu deilliannau dysgu.

Yn aml bydd gan fodiwlau nodau cyffredinol a deilliannau dysgu mwy penodol. Mae modiwlau gyda **deilliannau dysgu'n** wahanol i fodiwlau gyda **nodau** mewn dwy brif ffordd. Yn gyntaf, mae tuedd i fynegi nodau mewn termau 'macro' braidd yn gyffredinol a generig (e.e. datblygu hoffter mawr o Shakespeare; gwerthfawrogi cysyniad esblygiad). Mae deilliannau dysgu'n datgan yn fwy penodol yr hyn a ddisgwylir gan y myfyriwr. Enghreifftiau nodweddiadol:

***Nod***: deall y ffordd y cynllunnir ac y llunnir holiaduron

***Deilliannau***: gallu:

dadansoddi holiadur penodol yn feirniadol;

llunio holiadur heb ddiffygion cynllunio o bwys;

dangos dealltwriaeth o ddilyniant llunio holiadur.

***Nod***: dysgu amrywiaeth o sgiliau ymarferol biocemegol craidd

***Deilliannau***: gallu:

mesur cyfradd adwaith a gatalysir gan ensym;

profi crynodiadau protein a glwcos;

llunio a defnyddio cromliniau graddnodi;

gwahaniaethu rhwng ymarfer dadansoddi da a gwael.

**8. Rhybuddion Iechyd Addysgol:**

(i) Gochelwch rhag diraddio deilliannau dysgu er mwyn gwneud y gwaith asesu'n hawdd. Gall creadigrwydd, gwreiddioldeb, y gallu i syntheseiddio deunydd cymhleth a meddwl yn feirniadol, er enghraifft, fod yn ddeilliannau pwysig i fodiwl. Rhaid i ni beidio â rhoi gormod o bwys ar elfennau sy'n haws eu mesur a'u diffinio'n union.

(ii) Mae'r **broses** o astudio modiwl, a thaith addysgol y myfyrwyr, yn bwysig iawn – ac ni ddylai canolbwyntio ar ganlyniadau amharu ar hynny.

(iii) **Ni ellir rhagfynegi** bob tro sut brofiad a gaiff myfyrwyr mewn modiwl. Ni allwn ragweld bob tro'r hyn y bydd myfyrwyr unigol yn ei ddysgu o fodiwl. Mae'r annisgwyl a'r digymell yn bwysig mewn profiadau dysgu o ansawdd da.

*Adolygwyd: Gorffennaf* 2022